

Gweledigaeth newydd ar gyfer Strategaeth Gwaith leuenctid Genedlaethol i Gymru 2013-2018

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
â phobl ifanc



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Gweledigaeth newydd ar gyfer Strategaeth Gwaith Ieuencid Genedlaethol i Gymru 2013–2018: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad â phobl ifanc

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o ymatebion ac adborth o'r ymgynghoriad â phobl ifanc ar Weledigaeth ar gyfer Strategaeth Gwaith Ieuencid newydd i Gymru a gynhaliwyd gan Youth Friendly.

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Cangen Cymorth a Chanllawiau Ieuencid
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Blaen B3
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ



Cynnwys

Cyflwyniad	2
Sesiynau ymgynghori	4
Crynodeb o ymatebion y bobl ifanc	5
Thema 1: Cyflwyno addysg	6
Thema 2: Meithrin gallu	10
Thema 3: Atebolrwydd a chanlyniadau	14
Cyllid	18
Rhestr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad	21

Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2013, cafodd Youth Friendly y contract gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu dogfen addas i bobl ifanc ar *Weledigaeth ar gyfer strategaeth gwaith ieuenctid genedlaethol newydd i Gymru 2013–18* ac i arwain ar yr ymgynghoriad gyda phobl ifanc ledled Cymru. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r ymatebion a gafodd Youth Friendly gan bobl ifanc ar *Weledigaeth ar gyfer strategaeth gwaith ieuenctid genedlaethol newydd i Gymru*.

Roedd sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i leisio barn yn hanfodol wrth gefnogi datblygiad strategaeth newydd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Datblygodd Youth Friendly ddigwyddiadau ymgynghori atyniadol i bobl ifanc gan ddefnyddio dulliau arloesol a chreadigol o weithredu. Cafodd pobl ifanc o bob cwr o Gymru gyfle i ddysgu am y weledigaeth ddrafft newydd, yr hyn y gallai ei olygu iddyn nhw ac i ddweud eu dweud.

Yr ymgynghoriad

Aeth grŵp ymgynghorol ieuenctid Youth Friendly ati i helpu i greu a dylanwadu ar arddull dogfen ymgynghori a chwestiynau ymgynghori addas i bobl ifanc. Ar ôl ei llunio'n derfynol, roedd dogfen ymgynghori'r bobl ifanc ar gael i bawb ei gweld a chyflwyno sylwadau arni drwy CLIC ar-lein.

Datblygodd Youth Friendly gynnwys y digwyddiadau ymgynghori ar gyfer pobl ifanc. Cynhaliwyd sesiwn peilot gyda Fforwm Ieuenctid Blaenau. Yn y sesiwn yma, gwelwyd bod angen mwy o amser na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol i esbonio cysyniadau gwasanaethau ieuenctid, megis: y sectorau statudol a gwirfoddol, cyfraniad gwirfoddol a safbwynt strategol cenedlaethol.

Ar ôl y sesiwn peilot i helpu i gyflwyno'r cyd-destun ym mhob digwyddiad ymgynghori yn y dyfodol, datblygwyd ffilm fer fel cyflwyniad i esbonio beth yw gwaith ieuenctid a'r amrywiol ddulliau o'i fynegi a'r derminoleg a ddefnyddir ar draws gwasanaethau ieuenctid Cymru.

Datblygwyd ffilm ragarweiniol arall hefyd. Roedd y ffilm hon yn animeiddio pedwar gweithiwr ieuenctid o'r enw Pedro, Prisca, Pamela a Paul. Cymeriadau dychmygol oedd y rhain, yn cynrychioli'n fras y gweithwyr ieuenctid yng Nghymru heddiw. Roedd pob gweithiwr ieuenctid yn bresennol ym mhob digwyddiad ymgynghori hefyd, ar ffurf baner tal chwe troedfedd. Roedd y baneri gweledol ym mhob digwyddiad o gymorth i bobl ifanc ddeall rhai themâu a'r cwestiynau a'r cynigion a gyflwynwyd.

Trefnwyd a chynhaliwyd pump digwyddiad ymgynghori ledled Cymru ar gyfer pobl ifanc gan Youth Friendly.

- 21 Awst, Powys.
- 22 Awst, Sir Gaerfyrddin.
- 28 Awst, Wrecsam.
- 4 Medi, Blaenau Gwent.
- 11 Medi, Caerdydd.


Roedd cyfanswm o 129 o bobl ifanc wedi mynychu a chymryd rhan yn y digwyddiadau. Roedden nhw o amrywiol gefndiroedd.

Bu Youth Friendly hefyd yn cynorthwyo Gwasanaethau Ieuenctid Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint a Chonwy gyda deunyddiau i'w helpu i gynnal eu digwyddiadau ymgynghori eu hunain gyda phobl ifanc.



Sesiynau ymgynghori

Ym mhob digwyddiad ymgynghori, croesawodd staff ieuengaf Youth Friendly bawb. Yn ystod y digwyddiadau dangoswyd y ddwy ffilm o gyflwyniad. Defnyddiwyd teclynnau llaw Qwizdom i gasglu barn y bobl ifanc yn syth.



Cafodd y bobl ifanc eu hannog i roi ymatebion ysgrifenedig i bob cynnig ac ar gyfer y cwestiwn ariannol, ysgrifennodd y bobl ifanc eu barn ar bapurau £20.

Hefyd, roedd y bobl ifanc yn cael cyfle i siarad yn uniongyrchol mewn blwch fideo. Mae adborth y fideo wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn hefyd.

Ym mhob digwyddiad roedd y bobl ifanc yn cael dewis da o luniaeth a chyfle i hawlio £5 tuag at gostau teithio neu dreuliau.

Crynodeb o ymatebion y bobl ifanc


Roedd y bobl ifanc a fynychodd bob digwyddiad yn gadarnhaol gan dreulio amser yn mynegi o ddifrif eu syniadau, eu pryderon a'u safbwyntiau. Mae'r canlyniadau a gafwyd gan bobl ifanc ar y padiau pleidleisio wedi'u dangos ar ffurf graff. Mae'r holl sylwadau llafar ac ysgrifenedig wedi'u crynhoi o fewn y pwyntiau bwled.

Seiliwyd papur y weledigaeth ar dair thema graidd, ac roedd hefyd yn cynnig strwythur cyllido newydd.

- Cyflwyno addysg
- Meithrin gallu
- Atebolrwydd a chanlyniadau.

Ym mhob thema roedd tri chynnig yn amlinellu'r meddwl dros dro ar gyfer datblygu strategaeth gwaith ieuenctid genedlaethol newydd i Gymru.


I ddechrau, gofynnwyd i bobl ifanc beth oedd eu barn am y tair thema graidd.



Thema 1: Cyflwyno addysg

Cynnig 1

Fe wnaethom esbonio bod Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod gwasanaethau ieuenctid yn cael eu gweld a'u cydnabod fel rhan bwysig o gefnogi pobl ifanc, ac eisiau i wasanaethau ieuenctid gefnogi pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd mewn addysg. Aethom ati i ofyn i bobl ifanc beth oedd eu barn am hyn.




- Anhygoel. Rydw i'n sicr yn meddwl y dylid cael mwy o weithwyr ieuenctid mewn ysgolion.
- Mae'n syniad da cael gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion.
- Dw i'n meddwl bod cael gweithwyr ieuenctid a gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn syniad da – mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu a dod yn rhan o grŵp.
- Gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn syniad da. Mae'n haws siarad efo gweithwyr ieuenctid ac maen nhw'n gweithio'n wahanol.
- Mae eu hagwedd nhw'n wahanol i athrawon a gallai pobl eu hystyried nhw'n fwy cyfeillgar a diduedd.
- Dw i'n hoffi'r syniad o waith ieuenctid mewn ysgolion os na fydd e'n cael ei ddarparu mewn un ystafell yn unig a'i fod e'n gwneud llawer mwy na 'gwarchod plant' i'r ysgol.
- Trwy weithio mewn ysgolion, dw i'n meddwl bod pawb yn gallu manteisio ar waith ieuenctid.
- Dw i'n meddwl ei bod hi'n hen bryd eu bod nhw'n cysylltu gweithwyr ieuenctid ag ysgolion a bod pobl ifanc yn gwybod amdanyn nhw. Dw i hefyd yn meddwl y bydden nhw'n yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad â gweithiwr ieuenctid yn lle athro.

- Gwych! Dw i wir yn meddwl y dylai fod mwy o weithwyr ieuenctid mewn ysgolion a mwy mewn clybiau ieuenctid.
- Mae'n dda oherwydd mae'n dod â phobl ifanc at ei gilydd a rhoi cyfleoedd iddyn nhw; mae dod â'r holl wasanaethau at ei gilydd hefyd yn beth da.
- Fe ddylai fod mwy o weithwyr ieuenctid ym mhob man.
- Fydd hi'n anodd cynnwys gwaith ieuenctid mewn ysgolion?
- Dw i'n meddwl ei fod e'n syniad da. Bydd e'n golygu bod myfyrwyr yn gallu bod yn rhan o rywbeth.
- Dw i'n meddwl ei fod e'n syniad eithaf da, ond mae'n bosibl na fydd pobl ifanc yn ei hoffi. Mae clwb ieuenctid yn awyrgylch hollol wahanol. Fe allai fod yn dda neu'n ddrwg, dw i heb benderfynu.
- Fe allai cysylltiad cryfach â'r ysgol fod yn beth da ond hefyd fe allai yrru pobl ifanc i ffwrdd oherwydd eu bod nhw'n poeni am eu henw da neu gallai gael ei ystyried fel rhywbeth sy'n fwy ar gyfer yr ysgol na'r bobl ifanc.
- Dylai gwasanaethau ieuenctid fod yn ddihangfa o'r ysgol.
- Yn bersonol, dw i'n credu bod y gwasanaeth ieuenctid yn gwneud digon mewn addysg ac fe ddylai ganolbwyntio ar rywbeth arall.
- Mae yna berygl y bydd yr athrawon yn gadael y myfyrwyr anodd yn nwylo'r gweithwyr ieuenctid a fyddan nhw ddim yno ar gyfer pawb.

Cynnig 2

Fe wnaethom esbonio i'r bobl ifanc bod Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod holl wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn cyfrannu at y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*, gan gefnogi pobl ifanc sy'n wynebu risg sylweddol o ymddieithrio o addysg ffurfiol, i ddarparu cefnogaeth gyson. Aethom ati i ofyn i bobl ifanc beth oedd eu barn am hyn.




- Syniad gwych!

- Dw i'n hoffi hwn oherwydd bod angen i bobl ifanc barhau mewn addysg ac mae gweithwyr ieuenctid yn bobl maen nhw'n ymddiried ynddyn nhw ac yn gallu siarad â nhw!
- Dw i'n meddwl ei fod e'n syniad da oherwydd mae'n rhoi cefnogaeth i bobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol.
- Dw i'n meddwl ei fod e'n syniad da oherwydd maen nhw'n darparu i amrywiaeth ehangach o bobl ifanc er mwyn iddyn nhw gael y cymwysterau sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer eu bywydau.
- Dw i'n cytuno â mentora. Mae ei angen ar rai pobl ifanc ond mae hefyd angen iddyn nhw weithio fel tîm i feithrin sgiliau.
- Mae mentora un i un yn dda. Efallai y byddai therapi grŵp yn syniad da hefyd.
- Syniad da ac roedd y syniad mentora yn dda hefyd. Fe allai helpu llawer o bobl ifanc oherwydd efallai byddai gwell ganddyn nhw wneud hyn na siarad ag athro.
- Mae'n dda gan ei fod yn helpu pobl ifanc trwy broblemau teuluol anodd hyd yn oed pan dyw athrawon ddim yn deall neu pan maen nhw'n rhy brysur.
- Mae angen cyfleoedd i bobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol ddysgu llythrennedd a rhifedd mewn awyrgylch clwb ieuenctid.
- Mae'n dda sut mae pobl yn gofalu am y bobl ifanc sydd angen yr help y mae'r gweithwyr ieuenctid yn ei gynnig.
- Mae'n dda bod cymorth ar gael i'r bobl ifanc hynny sydd ei angen.
- Mae'n dda i'r rheini sydd angen cymorth neu ffordd o drafod eu pryderon.
- Dw i'n meddwl y dylen nhw fod yn rhan o lawer o bethau sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc.
- Dw i'n credu bod angen i weithwyr ieuenctid ganolbwyntio'n fwy ar y plant/bobl ifanc yn eu harddegau sy'n gwneud eu gorau bob tro. Weithiau, dim ond y disgyblion sy'n camymddwyn sy'n cael sylw.

Cynnig 3

Fe wnaethom esbonio i'r bobl ifanc bod Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod holl wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn darparu ystod o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i ennill achrediadau, i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg a chyfleoedd i ddysgu am ieuchyd a lles mewn ffordd hwyllog. Aethom ati i ofyn i bobl ifanc beth oedd eu barn am hyn.

Rydym am I bob gwasanaeth ieuenctid barhau I ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau. Beth yw eich barn chi am hyn?




- Dw i'n meddwl bod cael amrywiaeth eang o weithgareddau'n syniad da fel bod rhywbeth at ddant pawb ar gael.
- Dw i'n hoffi'r syniad o ddal ati â'r gweithgareddau.
- Mae pob ardal yn wahanol ac felly mae eu gofynion a'u hanghenion nhw'n wahanol. Mae angen gweithgareddau mwy amrywiol arnon ni!
- Mae addysg tu allan i'r ysgol yn bwysig.
- Fe fydd yn annog pobl ifanc i ddysgu cymwysterau newydd ac i weld yr hyn sy'n digwydd o'u hamgylch nhw.
- Does dim angen achrediadau i brofi bod sgiliau yn cael eu dysgu.
- Dw i'n hoffi hyn! Dw i'n meddwl y dylai mwy o bobl ifanc ddysgu Cymraeg.
- Dw i'n hoffi'r syniad o ddysgu mwy o Gymraeg yn ein gwaith ieuenctid.
- Dw i'n meddwl ei fod yn syniad da cael mwy o bobl yn dysgu Cymraeg ac mae cadw pobl yn actif yn ffordd dda o fyw'n iach
- Dw i'n hoffi'r syniad o fwy o bobl yng Nghymru'n dysgu am yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, gan ei bod yn bwysig i gynnal traddodiadau ein gwlad.
- Dw i'n hoffi'r syniad o ddysgu am ddiwylliant Cymru a hefyd yr iaith Gymraeg.
- Mae angen mwy o waith gyda'r iaith Gymraeg.
- Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar waith/gwasanaethau ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae angen iddyn nhw fod ar gael yn haws, nid dim ond ar ôl ysgol.
- Dydw i ddim yn hoffi meddwl am gael fy ngorfodi i ddysgu Cymraeg ond mae popeth arall yn grêt.
- Fe hoffwn i weld mwy o bwyslais ar 'chwarae'. Dw i'n meddwl bod angen ehangu'r gwasanaeth gyda mwy o arian yn cael ei wario ar waith ieuenctid/chwarae.
- Fe ddylen ni ddysgu ieithoedd eraill yn ogystal â'r Gymraeg.
- Mae angen rhoi'r gorau i dorri cyllidebau achos mae'n ein rhwystro ni rhag cyflawni'r nodau y mae'r Llywodraeth yn eu gosod.
- Peidiwch â newid gormod!!
- Dylid cael gweithwyr/mentoriaid ieuenctid mewn ysgolion i roi pobl ifanc ar y trywydd iawn.

Thema 2: Meithrin gallu

Fe wnaethom esbonio i'r bobl ifanc bod Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod y gwasanaethau ieuencid sy'n rhan o wasanaeth ieuencid gwirfoddol a statudol yn cydweithio, gan gyflwyno darpariaeth ar y cyd o weithgareddau gwaith ieuencid ar gyfer pobl ifanc. Aethom ati i ofyn i bobl ifanc beth oedd eu barn am hyn.


Cynnig 4



- Mae hyn yn wych! Dydw i ddim yn hoffi'r syniad o weithwyr ieuencid ddim yn gweithio gyda'i gilydd. Dylai gweithwyr statudol a gwirfoddol weithio gyda'i gilydd fel nad oes gwrthdaro.
- Mae'n syniad da i weithwyr statudol a gwirfoddol gydweithio i rannu arfer da ac adnoddau!
- Dw i'n meddwl bod uno'r holl wasanaethau ieuencid yn syniad gwych oherwydd mae'n rhoi cyfle i wahanol wasanaethau gymysgu, newid a symud ymlaen.
- Mae hyn yn dda iawn! Dydy hyn ddim yn digwydd yn barod?
- O ran gwaith ieuencid, mae cydweithio yn syniad gwych!
- Dw i'n meddwl y byddai'r syniad o wasanaethau ar y cyd yn fwy effeithlon.
- Fe fydd mwy o weithio mewn partneriaeth o fantais i fwy o bobl.
- Mae'n iawn tra bo pawb yn cytuno!
- Mae'n wych os fydd dim gormod o gystadleuaeth am y nifer fwyaf o bobl ifanc.
- Mae hyn yn dda iawn!
- Dydw i ddim yn siŵr ond dydw i ddim yn gwybod pam!
- Maen nhw'n gwneud hyn yn barod!

Cynnig 5

Fe wnaethom esbonio i'r bobl ifanc bod Llywodraeth Cymru eisiau datblygu rhith-borth ar gyfer gwasanaethau ieuenctid. Dylid gwella'r gwasanaeth ieuenctid a gyflwynir drwy ddatblygu gwasanaethau ieuenctid newydd ar y we. Aethom ati i ofyn i bobl ifanc beth oedd eu barn am hyn.




- Ni ddylai rhith-borth gymryd lle unrhyw weithiwr ieuenctid. Er, fe allai fod yn syniad da i'r rheini sy'n byw yng nghefn gwlad oherwydd mae'n bosibl na fyddan nhw'n gallu mynd i glwb ieuenctid. Ar y llaw arall, mae'n bosibl bod ganddyn nhw gysylltiad gwael â'r rhyngrwyd.
- Mae'r wefan yn syniad da oherwydd os nad yw pobl ifanc yn gallu mynychu clybiau ieuenctid, gallan nhw edrych ar y rhyngrwyd a chael gwybod y newyddion diweddaraf.
- Dw i'n meddwl bod y wefan yn syniad da iawn.
- Dw i'n meddwl ei fod e'n syniad da ond, o ran y wefan, efallai na fydd gan bawb fynediad i'r rhyngrwyd ac ni ddylai gael ei chynnig yn lle syniadau eraill.
- Gallai creu gwefan gwasanaeth ieuenctid fod yn syniad da oherwydd bydd yn caniatáu i bobl ifanc gael mynediad rheolaidd i wasanaethau. Fe fyddan nhw'n gallu derbyn gwybodaeth am wasanaethau lleol a chenedlaethol.
- Dw i'n meddwl bod ehangu dros y rhyngrwyd yn syniad da ond mae angen ei wneud yn ogystal â syniadau eraill. Ond, dw i'n meddwl ei fod e'n syniad da.
- Iawn, ond gofynnwch am farn pobl ifanc pan fyddwch chi'n creu'r wefan.
- Neis iawn!
- Mae creu gwefan yn syniad da ond dw i dal am gael amser wyneb-yn-wyneb gyda'm gweithwyr ieuenctid yn y clwb!
- Dw i'n hoffi'r syniad o gael cymorth ar-lein yn fawr iawn!
- Dydy gwefannau ddim wedi gweithio o'r blaen felly pam bydden nhw'n gweithio nawr? Mae tystiolaeth bod gwaith wyneb-yn-wyneb yn gweithio.
- Pwy fydd yn ei chreu a'i monitro?
- Mae'r wefan yn syniad gwych os bydd y cymorth wyneb-yn-wyneb yn parhau.
- Mae'r wefan yn syniad gwych os bydd gweithwyr ieuenctid yn dal i fod ar gael.

- Dw i'n meddwl y dylai'r llywodraeth fwrw ymlaen â'r gwaith yn gyflym fel gwledydd eraill.
- Mae'n syniad da bod pobl yn dal i fod ar gael i helpu pobl ifanc.
- Dw i'n meddwl bod angen defnyddio mwy ar gyfryngau cymdeithasol i gysylltu â phobl ifanc.
- Dw i'n credu y byddai'n effeithiol os nad yw'n cymryd lle rhywbeth arall.
- Dw i'n credu bod yr holl syniadau'n dda ond does gan bawb ddim mynediad i'r rhyngwrwyd. Ar y llaw arall, fe allai'r wefan gymryd lle'r grwpiau ac fe allai'r clybiau ieuenctid fod yn wag.
- Dydw i ddim yn meddwl y byddai gwefan yn gweithio. Mae cymryd rhan a chyfathrebu a helpu pobl ifanc i feithrin sgiliau siarad â phobl yn rhan bwysig o wasanaethau ieuenctid a dydych chi ddim yn gallu eu dysgu ar gyfrifiadur.
- Dw i'n teimlo bod perygl y gallai'r wefan ynysu pobl ifanc a gwneud iddyn nhw golli eu sgiliau cymdeithasol.
- Yn hytrach na gwario mwy o arian ar wefan newydd, fe ddylech chi wella'r rhai sydd ar gael yn barod ac ychwanegu atyn nhw.
- Dydy pawb ddim yn gallu fforddio'r rhyngwrwyd felly ni fyddai'r wefan yn gweithio. Er fy mod i'n gallu ei fforddio, dw i am dynnu sylw at y wasgfa gredyd.
- Dydw i ddim yn meddwl bod y rhith-borth yn syniad da oherwydd gallai gael ei ddefnyddio ar gyfer bwlio.
- Wir? Pam dydych chi ddim yn gwario'r arian ar roi mwy o weithwyr ieuenctid neu glwb ieuenctid gwell i ni!

Cynnig 6

Fe wnaethom esbonio i'r bobl ifanc bod Llywodraeth Cymru eisiau gwella'r gwaith gyda sefydliadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol. Aethom ati i ofyn i bobl ifanc beth oedd eu barn am hyn.




- Mae hyn yn dda!
- Dw i'n hoffi hyn!
- Mae hyn yn iawn os bydd pethau'n gweithio'n dda.

- Mae hyn yn dda oherwydd mae'n bosibl y bydd ganddyn nhw fwy o ddewisiadau ar ein cyfer ni!
- Mae'n dda, ond pa sefydliadau cenedlaethol ydych chi'n sôn amdany'n nhw?
- Dw i'n hoffi'r syniad ond ydyn nhw'n gweithio yn ein hardal ni?
- Dw i'n meddwl bod hyn yn iawn!
- Mae hyn yn dda. Dw i'n meddwl bod modd ei ddefnyddio er mwyn i'r ddarpariaeth ieuenctid leol allu cyflogi sefydliadau sy'n gweithio ar draws y wlad i ddod i roi hyfforddiant i bobl ifanc ar agweddau dydyn nhw ddim eto yn gymwys i'w darparu.
- Dw i'n meddwl y bydd yn fy helpu i ennill mwy o gymwysterau ac mae sefydliadau mwy o faint yn gweithio'n well, weithiau!
- Mae gweithio yn genedlaethol yn bwysig oherwydd mae cysylltiadau'n dda ac mae modd rhannu syniadau.
- Does dim un ffordd orau o weithio. Y perygl yw bod pob gwasanaeth yn cael ei annog/orfodi i weithio mewn ffordd debyg. Fe allai hyn ddigalonni/yrro rhywun i ffwrdd am ei fod, efallai, yn defnyddio gwasanaeth penodol am ei fod yn hoffi'r ffordd mae'n gweithio.
- Mae yna sawl barn amrywiol o ran sut mae sefydliadau'n gweithio. Oes yna berygl y bydd gormod o bwyslais ar hyn yn hytrach nag ar y bobl ifanc?
- Mae gwahanol bethau'n gweithio'n well mewn dinasoedd gwahanol. Mae'n anodd dweud a fyddai un peth yn gweithio ym mhobman.
- Dw i'n meddwl bod hyn yn iawn oherwydd bydd yn caniatáu i bobl ifanc gael mwy o gymorth yn haws os nad ydy nhw'n gallu cael mynediad i glybiau ieuenctid yn hawdd.
- Dw i ychydig yn amheus o weld sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol yn gweithio gyda'r llywodraeth oherwydd dw i'n meddwl y gallai gwybodaeth fynd ar goll.
- Pam ydych chi am wneud hynny?
- Pam? Beth sydd o'i le ar y ffordd maen nhw'n gweithio nawr?

Thema 3: Atebolrwydd a chanlyniadau

Cynnig 7

Fe wnaethom esbonio i'r bobl ifanc bod Llywodraeth Cymru eisiau datblygu fframwaith canlyniadau cenedlaethol a marc ansawdd. Aethom ati i ofyn i bobl ifanc beth oedd eu barn am hyn.




- Dw i'n meddwl y byddai cynhyrchu taflen dystiolaeth yn dda i ddangos yr effaith mae'n ei gael.
- Dw i'n ei hoffi ond dw i ddim yn siŵr sut byddai'n cael ei fesur mewn ffordd sy'n cynrychioli'r hyn sydd wir yn digwydd.
- O ran atebolrwydd, mae gwerthuso gwaith ieuenctid yn anodd. Bydd angen bod yn ofalus yn fy marn i.
- Gwych! Mae'n dda bod gweithwyr ieuenctid yn cael eu parchu am eu gwaith.
- Dw i wir yn hoffi hyn, ond dw i ddim yn siŵr a fydd pobl eraill yn hoffi'r syniad.
- Dw i'n meddwl bod hyn yn syniad da ond pwy fydd yn cadw golwg ar bethau!
- Mae'n iawn os bydd yn cael ei wneud yn deg.
- Dw i'n hoffi'r syniad ond tybed sut bydd yn gweithio?
- Dw i'n meddwl ei fod e'n syniad gwych ond dw i ddim yn siŵr sut bydd Llywodraeth Cymru yn ei fonitro, yn gwirio clybiau ieuenctid ac yn cefnogi'r rheini sydd angen mwy o help.
- Dw i'n meddwl ei fod e'n wych oherwydd weithiau dydy ein clwb ieuenctid ni ddim yn gwneud rhyw lawer.
- Dw i'n meddwl ei fod e'n iawn ond efallai na fydd yn deg oherwydd mae gan wahanol ardaloedd yng Nghymru fwy o broblemau nag eraill, felly bydd angen i chi roi gwybod i mi sut bydd e'n gweithio.

- Dw i'n meddwl y gallai canllawiau weithio oherwydd fe allan nhw osod safon a helpu ardaloedd sy'n ansicr o'r camau sydd angen eu cymryd.
- Sut bydd y marc ansawdd yn cael ei fesur?
- Sut bydd llwyddiant yn cael ei fesur?
- Rydych chi'n ceisio rhoi gwaith ieuenctid i mewn i focsys bach taclus. Mae yna gymaint o amrywiaeth fel y bydd gosod sectorau i mewn i fframwaith yn eithrio pobl.
- Os bydd marciau ansawdd, fe fydd canolfannau neu sefydliadau sydd hebddyn nhw'n cael eu cau neu bydd pobl ifanc yn osgoi eu defnyddio.
- Dydw i ddim yn siŵr am y fframweithiau cenedlaethol a'r marciau ansawdd. Dw i'n meddwl y gallai pethau fynd o chwith. Yn gyntaf, mae angen mwy o arian ar rai ardaloedd nag eraill. Hefyd, gallai ardaloedd sydd â mwy o bobl mewn angen ymddangos yn wael hyd yn oed pan fo'r gwaith ieuenctid sy'n cael ei wneud yno yn dda.
- Gallai hyn wneud i waith ieuenctid newid mewn ffordd wael a dod yn debycach i bob rhan arall o'n bywydau ni – cyrraedd targedau i wneud i ysgolion edrych yn dda.

Cynnig 8

Fe wnaethom esbonio i'r bobl ifanc bod Llywodraeth Cymru eisiau datblygu ymgynghoriad pellach ar ddatblygu cyfarwyddyd statudol. Gallai cyfarwyddyd statudol helpu awdurdodau lleol pan maent yn rhannu'r gyllideb maent yn ei chael gan Lywodraeth Cymru ar draws adrannau. Gallai'r cyfarwyddyd ddarparu canllawiau i awdurdodau lleol ac esbonio'n glir sut dylai gwasanaeth ieuenctid fod. Aethom ati i ofyn i bobl ifanc beth oedd eu barn am hyn.




- Dw i'n meddwl y gallai canllawiau weithio oherwydd fe allan nhw osod safon a helpu ardaloedd sy'n ansicr o'r camau sydd angen eu cymryd.
- Dwi'n meddwl bod hyn yn syniad da.
- Fe fydd yn helpu'r gwasanaeth.
- Dyna syniad da os bydd e'n helpu pobl, hynny yw!
- Dw i'n meddwl ei fod e'n syniad da fel bod pob person ifanc yn cael yr un cyfleoedd.

- Dw i'n hoffi hyn! Dw i'n meddwl bod dod at eich gilydd i siarad am ddatblygu canllawiau yn syniad da – ond gwnewch hynny te! Dwi'n meddwl bod hyn yn syniad da.
- Dydw i ddim yn cytuno â rhai mannau yn derbyn mwy o arian/gweithgareddau. Fe ddylai pawb gael yr un cyfleoedd ac arian, ble bynnag maen nhw'n byw.
- Dydw i ddim yn siŵr am hyn oherwydd rydw i'n meddwl ei fod yn ormod o amser. . . os oes problem, gwnewch rywbeth nawr!
- Dw i ddim yn siŵr oherwydd dw i ddim yn gwybod a fydd y grŵp cyfeirio yn helpu.
- Dydw i ddim yn hoffi hyn . . . pam mae popeth mor anodd?
- Dw i'n meddwl bod gan Lywodraeth Cymru ormod i'w ddweud am waith ieuenctid!

Cynnig 9

Fe wnaethom esbonio i'r bobl ifanc bod Llywodraeth Cymru eisiau datblygu grŵp newydd a fydd yn cynnwys pobl ifanc i roi cyngor i Weinidogion ar waith ieuenctid. Hefyd, bod Llywodraeth Cymru eisiau gwella sut mae gweithwyr ieuenctid yn rhannu arferion da. Aethom ati i ofyn i bobl ifanc beth oedd eu barn am hyn.




- Dw i'n meddwl bod angen cydnabod gwaith ieuenctid yn fwy. Yn aml mae'n cael ei weld fel rhywbeth i daro'r bai arno pan fo pethau'n mynd o chwith ond dyw e ddim yn cael ei ddathlu am yr effaith positif mae e'n ei chael a'r gwaith da sy'n cael ei wneud.
- Dw i'n teimlo y byddai mwy o gydnabyddiaeth hefyd yn helpu i gael gwared ar y stereoteip negyddol sy'n cael ei gysylltu â phobl ifanc. Dydyn ni bron byth yn gweld straeon da ar y cyfryngau am bobl ifanc a gwaith ieuenctid.
- Dw i'n meddwl bod cynnwys gweithwyr ieuenctid mewn trafodaethau yn dda oherwydd maen nhw'n well am weld y sefyllfa o safbwynt pobl ifanc na'r llywodraeth.
- Fe ddylai'r llywodraeth wneud yn siŵr ei bod yn cynnwys pobl mewn penderfyniadau, yn enwedig pan maen nhw'n effeithio arnyn nhw.
- Dw i'n meddwl ei fod e'n syniad da i gymryd rhan.
- Dw i'n meddwl y dylai'r gwasanaethau ieuenctid gael eu clywed a'u parchu lawer yn fwy.
- Mae'n dda iawn eich bod chi'n cynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau.
- Mae'n iawn, ond gofynnwch i bobl ifanc beth maen nhw eisiau yn hytrach na defnyddio'ch syniadau chi.

- 
- Dw i'n credu bod y cwestiynau anghywir wedi cael eu gofyn. Mae angen i chi ofyn i ni sut mae gwneud hyn.
 - Mae'r gwasanaethau ieuenctid yn haeddu rôl bwysicach mewn rhoi arweiniad a chynghor oherwydd gallai pobl ifanc elwa'n fwy ar eu barn nhw na barn eu hathro neu eu rhieni.
 - Mae hyn yn wych! Ydych chi'n dweud wrtha i nad ydych chi'n gwneud hyn yn barod!
 - Dydw i ddim yn siŵr oherwydd dydw i ddim yn gwybod a fyddai fy ngweithiwr ieuenctid i eisiau hyn! Gofynnwch iddyn nhw!
 - Dw i'n anghytuno â datblygu rôl y gwasanaeth ieuenctid o ran arweiniad -fyddai hyn ddim yn ddiddorol iawn.

Cyllid

Wedyn fe wnaethom esbonio i'r bobl ifanc bod Llywodraeth Cymru, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth newydd, yn cynnig dull newydd o gyllido gwasanaethau ieuencid. Aethom ati i ofyn i bobl ifanc beth oedd eu barn am hyn.



Lle fydddech chi'n gwario'r arian?

Ar draws pob thema

- Dw i'n meddwl y dylid rhannu'r arian yn gyfartal rhwng y themâu.
- Fe fyddwn i'n rhannu'r arian rhwng y tair thema a rhoi rhywfaint i brosiectau ieuencid sy'n fwy hwyliog.

Addysg

- Anfon gweithwyr ieuencid i mewn i ysgolion i gael gwared ar rwystrau a meithrin perthnasau gyda phobl ifanc. Fydd hyn ddim mor ffurfiol a bydd yn helpu i sicrhau bod gan bobl ifanc rywun i siarad ag ef heb gael eu beirniadu na'u bychanu.
- Fe fyddwn i'n gwario'r arian ar dripiâu addysgol i bobl ifanc.
- Fe fyddwn i'n rhoi blaenoriaeth i wario'r arian ar sefydliadau ieuencid ar gyfer tripiâu a chysiau addysgol a fydd o ddiddordeb i bobl ifanc.
- Fe fyddwn i'n gwario'r arian ar ddulliau un i un mwy personol mewn ysgolion a chyfleuster ar-lein hefyd.
- Hyfforddi gweithwyr ieuencid ar sut i roi arweiniad a chynghor.
- Fe fyddwn i'n gwario'r arian ar ddarparu addysg.
- Darparu addysg, clybiau ieuencid ac ysgolion!

- Dosbarthiadau hunan-barch a meithrin hyder.
- Delio ag arian a sgiliau bywyd.
- Addysg ryngwladol a diwylliannol.
- Gwella addysg tu allan i'r ysgol.
- Meithrin hyder yn y clwb ieuenctid.
- Dw i'n meddwl y dylai'r arian gael ei wario ar addysg Cymru a rhai gweithgareddau chwaraeon.
- Cyflwyno addysg, yn enwedig dysgu Cymraeg.
- Syniad da ei gael; i gyflwyno addysg, ddim yn siŵr os oes raid i'r sector gwirfoddol a'r cyngor weithio gyda'i gilydd i wneud hyn.
- Fe fyddwn i'n ei ddefnyddio i roi mwy o weithwyr ieuenctid mewn mwy o ysgolion.

Meithrin gallu

- Amrywiaeth ehangach o weithgareddau am ddim i bobl ifanc.
- Fe fyddwn i'n rhoi'r arian tuag at brosiectau ieuenctid lleol.
- Mae gwir angen cyflwyno addysg. Ond ni ddylai hyn fod yr unig fath o waith ieuenctid. Mae gwaith ieuenctid yn rhoi rhyddid ac mae hyn yn hanfodol.
- Grwpiau anodd eu cyrraedd a democratiaeth/fforymau.
- Grwpiau a lleiafrifoedd anodd eu cyrraedd.
- Mwy o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc.
- Tripiâu ar gyfer clybiau ieuenctid, diwrnodau allan.
- Tîm allgymorth (ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol)
- Cynnal a chadw bywyd/sgiliau mentora a byw.
- Adeiladu pontydd rhwng gweithwyr ieuenctid ac ysgolion.
- Canolbwyntio ar achrediadau addysg a chymwysterau fydd o fantais i bobl ifanc.
- Fe ddylai awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am eu cyllidebau eu hunain.
- Fyddwn i ddim yn gwario'r arian ar uno gwasanaethau ieuenctid gwahanol (meithrin gallu) oherwydd dw i'n credu y byddai mwy o arian yn cael ei wario ar reoli. Fe fyddai hyn, felly, yn aneffeithiol.
- Cyflwyno addysg, cydraddoldeb ac amrywiaeth, trwy sefydliadau statudol a gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd a mwy o weithwyr ieuenctid mewn ysgolion.
- Gwell hyfforddiant a mwy ohono i bobl ifanc, fel help i gynllunio ar gyfer y dyfodol, ysgrifennu CV a help i chwilio am swydd.

Atebolrwydd a chanlyniadau

- Rhoi mwy o hyfforddiant i weithwyr ieuenctid, fel eu bod yn gallu darparu gwell safon o hyfforddiant i'r bobl ifanc sydd ei angen.
- Fe fyddwn i'n helpu gydag iechyd a bywydau personol pobl ifanc.
- Fe fyddwn i'n hoffi gweld fy nghlwb ieuenctid yn cael ei adnewyddu, er mwyn gwella ei olwg o'r tu allan, a chael mwy o offer efallai. Mwy o weithgareddau ar gyfer y bobl ifanc hyn ac iau.

Awgrymiadau eraill

- Offer newydd.
- Fe fyddwn i'n rhoi'r arian i'r cyngor i'w roi tuag at gael y clwb ieuenctid ar agor yn amlach ac am amser hirach.
- Cael gweithwyr ieuenctid yn fwy o ran o'r gymuned a gwneud canolfannau ieuenctid yn ganolfannau i bobl ifanc.
- Fe fyddwn i'n hoffi gweld fy nghlwb ieuenctid yn cael ei adnewyddu, er mwyn gwella ei olwg o'r tu allan, a chael mwy o offer efallai. Mwy o weithgareddau ar gyfer y bobl ifanc hyn ac iau.

- 
- Adloniant yn y clwb ieuenctid.
 - Cyfleusterau ac offer anghenion arbennig!
 - Fe hoffwn i weld disgo i'r holl bobl ifanc anabl.
 - Defnyddio mwy o dechnoleg a rhwydweithiau cymdeithasol mewn gwaith ieuenctid.
 - Fe fyddwn i'n ei roi i bobl ifanc fel eu bod nhw'n gallu mynd i gyfweiliadau ac i goleg, neu dim ond i brynu bwyd!

Rhestr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad

- Ynys Môn – Llais Ni
- Rhondda Cynon Taf – Laura Morgan a Louise.cook@rhondda-cynon-taff.gov.uk
- Youth Cymru – helenmary@youthcymru.org.uk
- UNA cyfnewid – sheilasmith@unaexchange.org
- Ymddiriedolaeth y Tywysog – henna.cheema@princes-trust.org.uk
- Yr Urdd – Catrin James catrinj@urdd.org a rhodrihuw@urdd.org
- Cwylvys – Sarah Powell – SJPowell@carmarthenshire.gov.uk
- Ardaloedd CWYVYS: Kathryn Jones, Zoe A Morgan, Caroline Hodson a Fflur Hughes
- LHDT – andrew.davies@unityproject.org.uk
- LHDT y Rhondda www.rhonddalgbt.co.uk
- Gwasanaeth Ieuenctid Powys
- Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam
- Conwy – Deborah.Job@conwy.gov.uk>
- Grwpiau gofalwyr ifanc
- Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy
- Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen
- Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion
- Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro
- Gwasanaeth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr
- Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd
- Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd.